

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

# GWYBODAETH GYFFREDINOL I RIENI / GENERAL INFORMATION FOR PARENTS

# 2023 – 2024

**Disgyblion – Cartref – Ysgol**
**Llwyddiant trwy Bartneriaeth**

Rydym yn credu yn gryf fod plant yn cyflawni mwy pan fydd yr ysgol a'r cartref yn gweithio gyda'i gilydd.

Athroniaeth o bartneriaeth sydd gennym yma ac fel ym mhob perthynas dda mae'n rhaid i bawb gyfrannu.

Mae'r cytundeb cartref – ysgol yma yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu ein partneriaeth. Ceisiwn egluro amcanion yr ysgol, a hefyd egluro rôl:

- yr Ysgol
- y cartref
- a'r disgyblion yn y bartneriaeth hollbwysig hon.

Drwy gydweithio rydym yn gallu cynnig yr allwedd i ddyfodol mwy disglair i'n disgyblion.

Gofynnwn i rieni ddarllen ac arwyddo copi o'r cytundeb hwn yn **Nhrefnydd y Disgybl** ar ddechrau bob blwyddyn academaidd newydd.

**Pupils – Home – School**
**Success through Partnership**

We strongly believe that children achieve more when both school and home work together to secure the happiness and success of every child.

The school's philosophy is one of partnership, and as in any successful relationship, each partner has to contribute.

The Home-School Agreement provides the framework for developing our partnership. It aims to clarify what the school is trying to achieve, and to clarify the role of the

- School
- Home
- Pupils in this vital partnership.

By working together, we can provide our pupils with the key to a brighter future.

We ask parents to sign a copy of the Home – School – Pupil Contract, **found in the Pupil Organiser**, at the start of every academic year.

## Gwisg Ysgol Blwyddyn 7 – 11 (ar gael o U Design)

**Ni chaniateir gwisgo gemwaith / colur yn yr ysgol. Ni chaniateir steil gwallt neu liw eithafol / annaturiol. Gwerthfawrogwn gydweithrediad rhieni yn hyn.**

- Crys ysgol glas golau
- Tei swyddogol yr ysgol
- Siwmper las (nefi) neu gardigan swyddogol yr ysgol *(gwddf V, bathodyn wedi ei wau i mewn)*
- Sgert las tywyll (nefi) siâp A neu wedi'i phletio **hyd at y ben-glin** *(Dim sgertiau tynn / byr)*
- Trowsus llwyd tywyll / nefi plaen *(Dim 'jeans' neu 'leggings' ayb)*
- Siorts ffurfiol plaen nefi / llwyd tywyll neu ddu (Tymor yr Haf yn unig) *(Dim siorts chwaraeon/logo)*
- Teits nefi trwchus neu sanau nefi hyd at y ben-glin
- Crys polo ysgol glas golau (Tymor yr Haf yn unig) – ar gael o UDesign
- Esgidiau ysgol du - dim esgidiau hyfforddi
- Cot law blaen ddu neu las

### Addysg Gorfforol – Merched (ar gael o U Design)

- Siwmper hyfforddiant llewys hir twym (¼ zipper)
- Crys ymarfer (aml gamp)
- Siorts ymarfer nefi
- Crys-t ymarfer nefi (gwddf crwn)
- 'Leggings' nefi
- Esgidiau hyfforddi

### Addysg Gorfforol – Bechgyn (ar gael o U Design)

- Crys ymarfer (aml gamp)
- Siorts ymarfer nefi
- Siwmper hyfforddiant llewys hir twym (¼ zipper)
- Sanau glas brenhinol/ glas golau
- Esgidiau rygbi / pêl droed
- Esgidiau hyfforddi

### Grant Gwisg Ysgol

***Mae grant dillad ysgol penodol ar gael ar gyfer disgyblion sydd a'u rhieni yn derbyn Cynhaliaeth Incwm. Ceir manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth yr ysgol.***

### Cwtsh y Cwm

***Cyflenwad o*** **wisg ysgol o safon da ar gael yn deillio o'n hymgyrch ail-gylchu gwisgoedd. I wneud cais, ebostiwch Cwtsh@ygcwmrhondda.cymru**

## School Uniform Years 7 – 11 (available from U Design)

**The wearing of jewellery/make-up is not allowed in school. Outrageous / unnatural colours/hairstyles are not allowed. The co-operation of parents would be greatly appreciated in this matter.**

- Plain light blue school blouse.
- Official school tie.
- Official navy-blue V neck school jumper or cardigan with badge woven into it.
- Plain A line or pleated **knee length** navy blue skirt (*No short / tight skirts*)
- Official navy / dark grey school trousers. (*No jeans, leggings, hipsters*)
- Formal navy / dark grey or black shorts (Summer Term only) *(No sports shorts/logos)*
- Light blue school polo shirt (Summer Term only) – available from UDesign
- Black school shoes - no trainers
- Black or navy raincoat

**Physical Education – Girls (available from U Design)**

- ¼ Zip fleece Top
- Navy blue training Short
- Navy blue round neck training t-shirt
- Navy training leggings
- Trainers

**Physical Education – Boys (available from U Design)**

- Long Sleeve Multisport Top
- ¼ Zip fleece Top
- Navy blue training Short
- Navy blue round neck training t-shirt
- Royal blue / sky blue band socks
- Rugby / football boots / trainers
- Trainers

**School Uniform Grant**

***Grant aid is available for the purchase of official school uniform for pupils whose parents are in receipt of Income Support. Further information and application forms are available from the school.***

**Cwtsh y Cwm**

**Good quality school uniforms available following our uniform re-cycling campaign. To request support, email Cwtsh@ygcwmrhondda.cymru**

**Offer**

*Bydd angen yr offer canlynol ar gyfer pob disgybl*:

- Offer ysgrifennu / pensiliau lliw
- Pren mesur, onglydd a chwmpawd
- Cyfrifiannell Gwyddonol
- Geiriadur Cymraeg / Saesneg
- Llyfr darllen Cymraeg / Saesneg

Gwaherddir defnyddio papur hylif (e.e. Tippex) yn yr ysgol.

- ➢ Gofynnir i rieni lle bo'n bosibl i ddarparu bag cadarn i gludo llyfrau.
- ➢ Gellir defnyddio cwdyn meddal neu fag chwaraeon i gario dillad chwaraeon a.y.b. ar wahân.

***Apeliwn at rieni i sicrhau bod enw yn cael ei osod er bob eitem o eiddo disgybl. Dylid rhoi'r enw yn glir ac mewn ffurf na ellir ei ddileu (e.e. pen annileadwy) neu dâp-enw arbennig.***

**Eiddo Coll**

Bydd unrhyw eiddo coll yn cael ei gadw yn swyddfa'r ysgol. Os daw disgybl o hyd i eiddo coll dylid ei roi yn y swyddfa.

**Cludiant i'r Ysgol**

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolTransport.aspx

Trefnir cludiant gan yr Awdurdod Lleol i bob disgybl sydd yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol ac o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol. Rhoddir gwybodaeth i rieni yn ystod gwyliau'r haf ynglyn â manylion y trefniadau a wneir.

Bydd y bysiau yn dod i'r maes parcio ar dir yr ysgol er mwyn i'r plant eu dal a disgyn oddi arnynt. Os cyfyd problemau ynglyn â chludiant, gall rhieni gysylltu yn gyntaf â'r ysgol, neu gysylltu â'r Awdurdod Lleol.

**Gwasanaeth**

Trefnir gwasanaeth dyddiol, byr, anenwadol ond Cristnogol fel gweithred o gydaddoliad. Dylai unrhyw riant na fynn i blentyn ymuno yn hwn, roi gwybod i'r ysgol trwy lythyr. Ystyrir y gwasanaeth boreol yn rhan bwysig o addysg y disgyblion.

**Equipment**

The following equipment is needed by each pupil:

- Writing equipment, coloured pencils
- Ruler, protractor and compass.
- Scientific Calculator
- Welsh / English dictionary
- Welsh / English reading book

The use liquid corrector (e.g., Tippex) is prohibited in school.

- Parents are requested, where possible, to provide a sturdy bag to carry books.
- A softer holdall/bag may be used to carry sportswear etc.

***Parents are particularly requested to ensure that each item of a pupil's belongings is marked with a pupil's name. It should be clearly and indelibly written (e.g., with indelible pen or embroidered name-tape).***

**Lost Property**

Lost property is kept in the school office. Should any pupil find an item of lost property, he/she should take it to the office.

**Transport to School**

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolTransport.aspx

The Local Authority arranges free transport for every pupil living over two miles from the school and within its official catchment. Information will be sent out to parents during the summer holidays giving details of arrangements made.

The buses will be in the car park on the school premises to pick up and set down pupils. If problems should arise with transport, the school may be contacted initially or parents may contact the Local Authority.

**Assembly**

Assembly consists of a short non-denominational but Christian act of collective worship. Any parent wishing a child to be withdrawn from the above on religious grounds should inform the school in writing. Assemblies are considered an important part of pupils' education.

**Presenoldeb yn yr ysgol – Targed pob disgybl = 95%**

Os ydy disgyblion am lwyddo yma mae'n hanfodol eu bod yn bresennol yn rheolaidd. Mae presenoldeb rheolaidd yn adlewyrchu ymrwymiad ac yn sicrhau'r cyfleoedd gorau ar gyfer cyrhaeddiad academaidd. Rydym, yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn ceisio sicrhau lefel presenoldeb uchel ar gyfer pob disgybl.

**Rydym yn gofyn i rieni i:**

- Gynnal arferion da o bresenoldeb cyson a phrydlondeb gan eich plant.
- Cysylltu â'r ysgol cyn 10 o'r gloch y bore ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb o'r ysgol. Os na dderbynir galwad ffôn, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni.
- Pan fo plentyn yn absennol o'r ysgol am fwy nag un diwrnod, disgwylir i'r rhieni gysylltu yn ddyddiol gyda'r ysgol ar fore'r absenoldeb.
- Gofynnir i rieni beidio mynd â'u plant allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau.
- Tra yn yr ysgol – ystyrir unrhyw absenoldeb o wers heb ganiatad yr athro yn "driwantio"
- Lle'n bosibl, gofynnwn i rieni osgoi trefnu apwyntiad meddygol yn ystod oriau ysgol.

***Presenoldeb cyson yn yr ysgol ydy'r ffactor mwyaf pwysig i lwyddiant eich plentyn.***

**Gwrth – Fwlian**

Ein nod yw gwneud Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn ysgol ddiogel a hapus i bob disgybl. Rydym wedi ymrwymo i wrthsefyll bwlio – ac felly bydd unrhyw achos o fwlian yn cael ei gymryd o ddifrif.

*Mae copi cyflawn o'r polisi ar gael o wefan yr ysgol.*

**Diogelu Plant**

Mae Llywodraethwyr a staff yr ysgol yn cydnabod bod gennym rhan bwysig i chwarae i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc a thrwy eu dysgu sut i aros yn ddiogel rhag niwed, a sut i ddweud os oes ganddynt ofidiau neu bryderon.

**Swyddog Diogelu Dynodedig – Mrs Helen Griffith**

*Mae copi cyflawn o'r polisi ar gael o wefan yr ysgol.*

## Attendance at School – Pupil Target = 95%

Regular attendance reflects commitment and maximises opportunities for educational achievement. At Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, we aim to secure the highest attendance from all our pupils.

**We ask parents to:**

- Support good habits of regular and punctual attendance in their children.
- Contact the school before 10a.m. on the first day of any absence if your child cannot attend through illness or any other reason. If no contact is made the school will contact the parents.
- When a child is absent from school for more than one day, parents are expected to contact the school daily on the morning of the absence.
- Parents are requested not to withdraw pupils from school for family holidays
- Where possible, parents should avoid arranging medical appointments during the school day.
- While in school, absence from any lesson without permission of the teacher is considered as truancy.

***Regular attendance at school is the single most important factor in your child's success.***

**Anti - Bullying**

Our aim is to make Ysgol Gyfun Cwm Rhondda a safe, happy place for every pupil. We are committed to taking a stand against bullying and therefore ensure that any incident is dealt with immediately.

*The full policy is available from the school website.*

**Child Protection**

The Governors and staff of our school fully recognize the contribution it makes to safeguarding children. We believe that our school should play an important part in the prevention of abuse and neglect through creating and maintaining a safe environment for children and young people and teaching them about staying safe from harm and how to speak up if they have worries or concerns.

**Designated Safeguarding Officer – Mrs Helen Griffith**

*The full policy is available from the school website.*

## Cysylltu â'r Ysgol

Mae cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref yn allweddol. Os dymunwch drafod unrhyw fater â'r ysgol, croesawn rieni i gysylltu â ni naill ai ar y ffôn neu i ymweld â'r ysgol. Er mwyn sicrhau trefn effeithiol, gofynnwn i rieni ffonio'r ysgol a siarad â'r Arweinydd Blwyddyn yn y lle cyntaf.

Os oes gan riant gwyn ynglyn â'i blentyn yn yr ysgol, gofynnwn iddynt gysylltu yn gyntaf â'r Arweinydd Blwyddyn perthnasol neu os oes problem bellach, gyda'r Prifathro neu aelod o'r Tîm Arwain yn ei absenoldeb.

Os na ddaw ateb boddhaol, dylid cysylltu â Chadeirydd y Bwrdd Llywodraethu.

***Hoffwn bwysleisio y dylech gysylltu â'r ysgol yn gyntaf, gan mai fel hyn y datrysir y mwyafrif o broblemau.*** *Mae copi cyflawn o'r polisi achwyno ar gael o wefan yr ysgol.*

**Y Gymdeithas Rhieni**

Mae ein cymdeithas rhieni gweithgar yn trefnu nifer o nosweithiau cymdeithasol amrywiol i rieni fwynhau yng nhwmni'i gilydd ac hefyd i godi arian i'r ysgol. Mae croeso cynnes i rieni i bob achlysur a drefnir. Mae'n gyfle da i ddod i adnabod rhieni eraill.

Byddwn yn atgyfodi Cymdeithas Rheini Staff yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Caiff unrhyw gefnogaeth ei werthfawrogi'n fawr ac rydym yn falch o dderbyn unrhyw awgrymiadau neu syniadau ar sut i ddatblygu tua'r dyfodol.

**CINIO**

https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/SchoolsandLearning/Schoolcatering/Payyourschooldinnermoney.aspx

Gweithredir system Fio-Metrig yn yr ysgol. Byddwn yn cofrestru pob disgybl newydd wrth iddo ymuno â'r ysgol ac ar ôl sicrhau caniatâd rhieni. Gall rieni dalu am ginio ysgol ar-lein (gweler Gwefan yr ysgol)

**GWEFAN YR YSGOL**

**www.ygcwmrhondda.cymru**

Mae'r wefan yn gofnod byw o holl weithgarwch yr ysgol. Byddwn yn sicrhau caniatâd rhiant cyn arddangos lluniau o'i blentyn ar y wefan. Ceir llawer o fanylion perthnasol arni yn ogystal.

**Tudalen Trydar swyddogol yr ysgol**

Dilynwch ni ar Drydar **@YGCwmRhondda**

Dilynwch Tudalen **Facebook** swyddogol yr ysgol a Chyfri **Instagram** **Cwtsh_y_Cwm_YGCR**

Byddwn yn cysylltu â chi hefyd yn achlysurol trwy wasanaeth neges destun yr ysgol.

## Contacting the School

Open and effective communication between school and the home is extremely important. If parents have any matter that needs discussion with the school, please contact us either by telephone or by visiting the school. To make the most effective arrangements, we ask parents to telephone the school to speak to the Head of Year in the first instance.
If parents have a complaint regarding a child in school, they are asked to contact the relevant Head of Year. If there is a further problem, the Headteacher or, in his absence, any of the Leadership Team should be contacted.

If parents are still not satisfied, the Chairman of the Board of Governors should be approached.

***We would like to stress the importance of contacting the school initially as this is how nearly all problems are resolved.*** *A full copy of our Complaints policy is available on our website.*

**The Parents' Association**
Our hardworking Parents' Association Committee arranges several, varied, social events during the year. Such evenings are an opportunity to get to know other parents and also raise money for the school. Parents are very welcome to all events.

We will be further developing the school's Parent Staff Association at the beginning of the next academic year. Any support would be greatly appreciated and we are pleased to receive any suggestions or ideas on how to develop the future.

**LUNCH**
https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/SchoolsandLearning/Schoolcatering/Payyourschooldinnermoney.aspx
We operate a Bio-Metrics paying system in school. We will register every child when they start school and after gaining parental permission. You are able to make online payments (please see website)

**SCHOOL WEBSITE**
**www.ygcwmrhondda.cymru**
Please refer to our website for up-to-date information on all aspects of school life. Parental consent will be obtained before any pictures of pupils are displayed on the website.

**School's Official Twitter Page**
Follow us on **@YGCwmRhondda,** our official **Facebook** page and **Cwtsh_y_Cwm_YGCR** **Instagram** account.

We will also contact you occasionally via school's messaging service

**Addysg Gorfforol**

Nod yr Adran Addysg Gorfforol yw cyflwyno ystod eang o gyfleoedd dysgu i'r disgyblion er mwyn datblygu ffitrwydd corfforol, cyd-drefniant, sgiliau ymarferol, gwybodaeth a deallusrwydd. Anogir y disgyblion i barchu chwarae teg, i dderbyn cystadleuaeth mewn modd cadarnhaol ac i ddatblygu hunan hyder.

**Gwersi Offerynnol**

Cynigir gwersi i ddisgyblion ar yr offerynnau canlynol:

- fiolin
- telyn
- offerynnau pres
- chwythbrennau
- gitar
- offerynnau taro
- piano
- canu

Trefnir bod y disgyblion yn derbyn gwersi ar drefn rota i sicrhau na fyddant yn cael eu hesgusodi o'r un gwersi yn gyson. Codir tâl tymhorol ar gyfer y gwersi.

**Cyfle Cyfartal**

Mae gan yr ysgol bolisi cadarn sy'n cyfeirio at y pwysigrwydd o greu amodau ffafriol i bob unigolyn Iwyddo oddi fewn i gymdeithas sy'n gofalu am fuddiannau pawb fel ei gilydd.

*Mae copi cyflawn o' r polisi cyfle cyfartal ar gael yn yr ysgol.*

**Cyngor Gyrfaol**

O Flwyddyn 9 ymlaen, cynigir cyngor gyrfaol i ddisgyblion. Yn ogystal â rhaglen o ddarpariaeth fewnol, ceir ymweliadau cyson â'r ysgol gan Swyddogion Gyrfaoedd yr Awdurdod ac arbenigwyr eraill. Gall rhieni drefnu gweld y Swyddog Gyrfaoedd i drafod llwybrau gyrfaol eu plentyn. Gall disgyblion ymgynghori â'u hathrawon yn ôl yr angen.

Tua diwedd Blwyddyn 9, gwahoddir rhieni a disgyblion Blwyddyn 9 i Noson Opsiynau yn yr ysgol, pan fydd cyfle i drafod gyda Swyddogion Gyrfaoedd ac athrawon cyn gwneud penderfyniadau ynglyn â phynciau dewisol CA4 (blynyddoedd 10 ac 11).

**Physical Education and Sport**

The aim of the Physical Education Department is to introduce pupils to a broad range of learning opportunities so as to develop physical fitness, cooperation, practical skills, information and understanding. Pupils are encouraged to value fair-play, to accept competition in a positive manner and to develop their own self-confidence.

**Instrumental Lessons**

Lessons are offered on the following instruments:

- violin
- harp
- brass instruments
- wind instruments
- guitar
- percussion
- piano
- singing

These lessons are on a rota basis to ensure that pupils do not miss lessons in the same subjects regularly. A termly fee will be charged for these lessons.

**Equal Opportunities**

The school has a sound policy referring to the importance of creating favourable conditions for every individual to succeed within a community which cares for the interests of everyone.

*The full policy is available from the school.*

**Careers Guidance**

From Year 9 onwards, pupils will be offered relevant careers advice. In addition to a programme of provision provided by the school, a Local Authority Careers Officer and other appropriate specialists are brought into the school. Parents may arrange to see the Careers Officer to discuss their children's career pathways. Pupils can consult their teachers for help and guidance as the need arises.

Towards the end of Year 9, parents and Year 9 pupils will be invited to the Options Evening at the school, when they will have the opportunity for discussion with Careers Officers and teachers before decisions on the course of study for KS4 (Years 10 & 11) are made.

**Clinig Iechyd**

Anogir rhieni a disgyblion i gysylltu â nyrs yr ysgol i drafod unrhyw broblemau ym ymwneud ag iechyd a chynhelir system apwyntiadau bob dydd Mercher trwy Google Classroom.

**Ar yr adeg hon, defnyddiwch y rhifau isod er mwyn cysylltu â'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion RCT**

| | | |
|---|---|---|
| Rhondda / Taf | Y Bwthyn, Pontypridd.<br>Swyddfeydd Iechyd Cymunedol, Pentre'r Eglwys.<br>Canolfan Feddygol Cwm Gwyrdd, Y Gilfach Goch.<br>Tylorstown Medical Centre, Tylorstown. | 01443 443443 est 72341<br>01443 443763<br>01443 670954<br>1443 732072 |

**Cynghorwr Ysgol**

Mae cynghorydd ar gael yn yr ysgol er mwyn cynnig cynhaliaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion yn wythnosol.

Mae croeso i unrhyw ddisgybl wneud apwyntiad: https://crs.eyetoeye.wales/enquiry/

**Cynghorwyr Eye 2 Eye: Mrs Rhian Davies, Mrs Claire Duffy + Jessica Price**

- https://www.eyetoeye.wales/
- https://www.facebook.com/eyetoeye.wales/
- https://www.instagram.com/eyetoeyewales/
- https://twitter.com/EyeCounselling?lang=en-gb

**YEPS** *(Y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid)*

- Facebook: http://facebook.com/YEPSRCT
- Instagram: http://instagram.com/yepsrct
- Twitter: https://twitter.com/YepsRCT
- Website: http://Wicid.tv

Swyddog Ymgysylltu â Phobl Ifainc Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yw **Chelsea Edwards**

**DYSG YGCR** *( Gwefan gynhaliol i rieni a gofalwyr)*

Mae gwefan benodol ar gael i chi er mwyn eich cefnogi chi i gefnogi'ch plant gyda heriau bywyd.

- https://sites.google.com/hwbcymru.net/support4parentsygcr/hafan

## Mentrau Plismona Cefnogol mewn Ysgolion

*(Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan)*

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Heddlu De Cymru i ddarparu mentrau Plismona cefnogol mewn ysgolion sydd â'r nodau canlynol:

- addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â'r niwed y gall camddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, iechyd eu teuluoedd a'r gymuned ehangach
- hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol drwy gyfrwng addysg
- gostwng lefelau trosedd ac anrhefn yn ein cymunedau ifanc.

Mae'r Swyddog Heddlu Ysgol dynodedig wedi'u hyfforddi i gyflwyno gwersi ar themâu camddefnyddio sylweddau, diogelwch personol, diogelu ac ymddygiad a chymuned i safon addysgol arfer gorau a groesewir gan yr ysgol.

## Meddyginiaeth

Nid yw'r ysgol yn dosbarthu tabledi lliniaru poen heb eich caniatad chi. Gofynnir i rieni gysylltu â'r ysgol pan fo angen i ddisgybl gymryd meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol. Dylid trosglwyddo unrhyw feddyginiaeth i'w chadw yn ddiogel yn swyddfa'r ysgol ac fe'i rhoddir i'r disgybl dan arolygaeth.

## Salwch neu Ddamwain yn yr ysgol

Os bydd disgybl yn sâl yn yr ysgol byddwn yn cysylltu â rhieni i ddod i'w nôl os credwn fod hynny'n angenrheidiol. Os caiff disgybl ddamwain yn yr ysgol a bod angen mynd i'r ysbyty, byddwn yn cysylltu â rhiant yn y lle cyntaf. Mewn achosion o argyfwng yn unig, os yw'n amhosib i riant fynd â'r plentyn i'r ysbyty, bydd athro neu'r aelod penodedig o staff yn mynd yn ei le.

## Teithiau / Cyfleoedd Allgyrsiol

Credwn yn gryf mewn darparu cyfleoedd allgyrsiol cyfoethog i'n disgyblion. Rhoddir gwybod o flaenllaw i chi os bydd eich plentyn yn gadael safle'r ysgol ar gyfer taith / gweithgaredd. Gofynnwn i rieni ddarllen ac **arwyddo'r ffurflen 'Caniatâd rhieni ar gyfer teithiau Arferol' yn Nhrefnydd y Disgybl** ar ddechrau bob blwyddyn academaidd

## Health Clinic

Pupils and parents are encouraged to contact the school nurse to discuss any health problems. An appointment system is implemented through Google Classroom every Wednesday.

At this time please use the numbers below to contact the School Nursing Service

| | | |
|---|---|---|
| Rhondda / Taf | Y Bwthyn, Pontypridd.<br>Community Health offices, Church Village.<br>Cwm Gwyrdd Medical Centre, Gilfach Goch.<br>Tylorstown Medical Centre, Tylorstown. | 01443 443443 ext 72341<br>01443 443763<br>01443 670954<br>01443 732072 |

## School Counsellor

The school counsellors are available to offer extra support for pupils weekly.

Any pupil is able to make an appointment https://crs.eyetoeye.wales/enquiry/

**Eye 2 Eye School Based Counsellors: Mrs Rhian Davies, Mrs Claire Duffy + Jessica Price**

- https://www.eyetoeye.wales/
- https://www.facebook.com/eyetoeye.wales/
- https://www.instagram.com/eyetoeyewales/
- https://twitter.com/EyeCounselling?lang=en-gb

**YEPS** *(Youth Engagement and Participation Service)*

- Facebook: http://facebook.com/YEPSRCT
- Instagram: http://instagram.com/yepsrct
- Twitter: https://twitter.com/YepsRCT
- Website: http://Wicid.tv

The Youth Engagement Officer for Ysgol Gyfun Cwm Rhondda is **Chelsea Edwards**

**DYSG YGCR** *( Support website for Parents and Carers)*

A specific support website available to Parents and Carers to support you in supporting the children in your care to face the hurdles in life

- https://sites.google.com/hwbcymru.net/support4parentsygcr/hafan

**Supportive School Policing Initiatives**
*(All Wales School Liaison Core Programme)*

**The school actively works in partnership with the South Wales Police Service to deliver a Supportive School Policing initiative that aim to:**

- educate children and young people about the harm substance misuse can cause to their health, their families and the wider community
- promote the principles of positive citizenship through the medium of education
- achieve a reduction in the levels of crime and disorder within our young communities

The schools designated Police officer is trained to deliver lessons on the themes of substance misuse, personal safety, safeguarding and behaviour and community to a best practice educational standard that is welcomed by the school.

**Medication**
The school does not administer medication such as pain killers without your permission. Parents are asked to contact the school should a pupil require medication during school hours. Any such medication should be placed in the school office for safekeeping and will be given to the pupil under supervision.

**Illness or Accident at School**
If a pupil is taken ill at school parents are contacted to collect him if it is thought necessary. If a pupil has an accident at school and a hospital visit is thought necessary parents will be contacted at the first available opportunity. Only in emergency situations, if it is impossible for a parent to make the journey, a teacher or delegated member of staff will take the pupil to hospital.

**School Trips / Extra Curricular Activities**
We firmly believe in providing rich and varied extra-curricular activities for our pupils. If your child will be leaving the school site to attend a pre-arranged activity during the school day, you will be informed beforehand. We ask parents to read and sign the **Consent Form for Usual Extra-Curricular Activities, found in the Pupil Organiser** at the start of every academic year.

**Diogelwch yn yr Ysgol**

Amgylchynir safle'r ysgol gan ffens a cheir allanfeydd penodol. Gwarchodir yr ysgol gan gamerau diogelwch, y rhan fwyaf tu allan ond ceir rhai tu mewn. ***Nid oes gan ddisgyblion Blwyddyn 7-11 yr hawl i adael tir yr ysgol.***

Ystyrir anwybyddu'r rheol hon yn fater difrifol iawn gan yr ysgol.

Gofynnwn i ymwelwyr arwyddo llyfr yn y Dderbynfa, cânt wedyn lanyard coch ymwelydd fel y gellir eu hadnabod gan bawb.

Mae nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf ar gyfer mân anafiadau.

Gwnawn bob ymdrech i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn un diogel i bawb weithio ynddo ac mae gennym bolisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr sydd ar gael yn yr ysgol.

**Security and School Safety**

The school site is enclosed, with a limited number of entry and exit points. The school is protected by a large number of CCTV cameras which are located both inside and outside the school buildings.

Year 7-11 pupils are not allowed to leave the school site. Contravening this will be regarded as a serious breach of school rules.

We ask all visitors to report to the main Reception, where they are issued with a red visitor lanyard for easy identification around the school.

A number of staff are qualified First Aiders are trained to assist pupils with minor medical problems.

We make every effort to ensure that the school environment is a safe place for everyone to work and we have a comprehensive Health and Safety policy that is available from the school on request.

**STAFF ALLWEDDOL YN Y FLWYDDYN YSGOL GYNTAF**
**KEY MEMBERS OF STAFF DURING FIRST SCHOOL YEAR**

Prifathro / Headteacher – **Craig Spanswick**

Dirprwy Brifathro (CADY) / Deputy Headteacher – **Osian Griffith**

Prifathro Cynorthwyol / Assistant Headteacher – **Aled Rees**

Prifathro Cynorthwyol (pontio) / Assistant Headteacher (transition)– **Helen Griffith**

Prifathro Cynorthwyol / Assistant Headteacher (ALNCo) – **Rhian Roberts**

Arweinydd Blwyddyn 7 / Head of Year 7 – **Delyth Seaton**

Rheolwr Lles, Cynhwysiant ac Ymyrraeth / Wellbeing, Inclusion and Intervention Manager (Deputy ALNCo) – **Helen Miller**

**Swyddogion Diogelu / Safeguarding Officers**

**[Gellir eu hadnabod trwy'r lanyard gwyrdd/ Recognised by green lanyard]**

- Helen Griffith
- Osian Griffith
- Rhian Morgan
- Rhian Roberts
- Aled Rees
- Caron Jones
- Craig Spanswick
- Helen Miller
- Danielle Vaughan

# Cysylltwch â ni / Contact Us

## Manylion Cyswllt / Contact Information

**Ysgol Gyfun Cwm Rhondda**
Heol Graigwen
Cymer
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9HA
(Sat Nav: CF39 9EP)

**Ffôn / Phone** 01443 680800.
**Ffacs / Fax** 01443 680810.

swyddfa@ygcwmrhondda.cymru

**@YGCwmRhondda**
**@PontioYGCR1**

Dilynwch / Follow
**Ysgol Gyfun Cwm Rhondda**